


## Rheilffordd y Chwarel

Hyd heddiw, mae Chwarel y Penrhyn yn gartref i olion un o'r rheilffyrdd lein gul hynaf yn y byd. Roedd y pellter rhwng y chwarel a'r porthladd yn ychydig dros 6 milltir. Yn wreiddiol, cariwyd y llechi o'r chwarel gan geffylau wedi'u harwain i lawr o'r chwarel gan ferched; enghraifft brin o ferched yn gweithio yn y diwydiant llechi. Erbyn 1790, roedd ystâd Penrhyn wedi gwella cyflwr y ffyrdd. Roedd y daith i'r porthladd yn llawer haws yn sgil hyn, gan leihau costau cludo a galluogi i fflyd o wagenni olwyni llydan gario'r llwythi trymaf.



Gwaith llechi Felin Fawr, 1960au

Edrychodd yr ystâd hefyd ar y posibilrwydd o gludo llechi drwy adeiladu camlas o'r chwarel i'r porthladd, a byddai angen rhwng 40 a 50 o lociau i wneud hynny. Yn hytrach, adeiladwyd tramffordd, a gafodd ei chwblhau yn 1801 (gosodwyd rheiliau ymyl yn lle'r rheiliau hirgrwn gwreiddiol yn 1820). Adeiladwyd ganddynt dri inclein i ymdrin â'r cwmp 600 troedfedd. Bellach, gellid defnyddio dau neu dri ceffyl i dynnu hyd at 24 o wagenni i fyny ac i lawr y trac rhwng yr

incleinau, a phob wagen yn dal hyd at dunnell o lwyth. Gellid rhedeg y tram newydd gydag 16 o geffylau a 12 dyn o gymharu â'r 300 o geffylau a'r 160 gyrrwr a oedd eu hangen yn flaenorol. Trwy wella'r doc ym Mhorth Penrhyn i dderbyn llongau mwy, roedd modd i'r chwarel allforio'i nwyddau a gellid cynhyrchu mwy a mwy o lechi.

Ym 1852, cysylltwyd Porth Penrhyn i lein y brif reilffordd. Roedd cangen milltir a hanner o hyd yn rhedeg i lawr i'r porthladd o'r lein a redai o Gaer i Gaergybi. Roedd llechi'r chwarel yn parhau i gyrraedd y porthladdoedd ar y tramffordd, ond o hynny ymlaen, gellid ei llwytho ar wagenni trenau yn hytrach na llongau.



Tren rhif 17 yn cludo  
llechi to i Borth Penrhyn

## TAITH Y LLECHEN

Mae 'Llwybr y Llechen' yn gyfres o farciau llwybr ar hyd Lôn Las Ogwen sy'n adrodd stori unigryw llechi Ogwen, Chwarel y Penrhyn a'r bobl fu'n rhan o'r diwydiant llechi dros y blynyddoedd.